Drwy e-bost

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

4 Hydref 2022

Annwyl Jayne

Rydym yn hapus i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y penderfyniadau a wnaed yn ymwneud â graddio yn Haf 2022 a hoffem hefyd fanteisio ar y cyfle i roi gwybod i'r Pwyllgor am y penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd mewn perthynas â graddio ym mis Tachwedd 2022/Haf 2023.

Wrth weithredu'r penderfyniad i ganlyniadau ddisgyn yn fras hanner ffordd rhwng y rhai a welwyd yn 2019 a 2021, ein bwriad bob amser oedd y dylai dyfarniadau a wneir o fewn y broses fod yn fwy cadarnhaol. Roedd hyn i gydnabod y cyd-destun penodol iawn ar gyfer dyfarniadau eleni ac i roi hyder i ddysgwyr na fyddent dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn mannau eraill. Fodd bynnag, tan fis Gorffennaf methodd yr ymrwymiad hwn i gymryd camau penodol i ganlyniadau bwyso tuag at y rhai a welwyd yn 2021.

Mae'r prosesau ar gyfer dyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn weddol debyg ar draws awdurdodaethau, ond mae gwahaniaethau'n bodoli. Mae'r rhain yn rhannol oherwydd bod y cyd-destun ar gyfer sicrhau cymaroldeb ychydig yn wahanol ar draws awdurdodaethau. Yng Nghymru, lle mae un corff dyfarnu (CBAC) yn darparu cymwysterau 'gwneud-i-Gymru', rydyn ni'n canolbwyntio ar gymaroldeb dros amser. Yn Lloegr, yn ogystal ag ystyried cymaroldeb dros amser, rhaid i Ofqual ystyried cymaroldeb ar draws y pedwar corff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch.

Wrth i waith manwl fynd rhagddo i roi'r polisi graddio ar waith yn Lloegr, daeth Ofqual yn bryderus bod risg y gallai'r dull a ddefnyddiwyd yno arwain at ganlyniadau a oedd yn is na dehongliad syml o'r pwynt canol, felly penderfynwyd ym mis Gorffennaf i bwysoli'r ymagwedd tuag at ganlyniadau 2021. Roedd hyn yn golygu bod y broses dechnegol i weithredu'r polisi 'yn fras hanner ffordd' wedi'i phwysoli 60:40 tuag at 2021.

Er ein bod yn rhan o drafodaethau yn arwain at y penderfyniad hwn, nid oeddem yn rhan o'r penderfyniad ei hun, a oedd yn briodol i Ofqual ei wneud gan ei fod yn ymwneud â dyfarniadau yn Lloegr. Roeddem yn llai pryderus y byddai'r dull a

**Cymwysterau Cymru**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

ddefnyddiwyd yng Nghymru yn arwain at ganlyniadau'n disgyn islaw dehongliad syml o 'yn fras hanner ffordd' ond penderfynwyd mai'r ffordd orau o ddiogelu buddiannau dysgwyr yng Nghymru oedd drwy adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd gan Ofqual. Yn y pen draw, ni fyddem am i ddysgwyr yng Nghymru fod dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion sy'n cymryd yr un cymwysterau yn Lloegr. Yna buom yn gweithio gyda CBAC i roi pwysiad tebyg ar waith tuag at ddeilliannau 2021 ar gyfer dysgwyr sy'n sefyll TGAU, UG a Safon Uwch gwneud-i-Gymru.

Fel yr ydych wedi nodi, mae hyn yn arwain at sefyllfa ddyrys bosibl o unioni yn ôl i safonau cyn y pandemig yn 2023. Rydym yn rhannu pryder y Pwyllgor y dylid osgoi hyn ac, felly, rydyn ni'n argymell i'r Bwrdd y dylai'r dull o raddio yn 2023 anelu at ganlyniadau sydd hanner ffordd yn fras rhwng 2019 a 2022 - i bob pwrpas yn ceisio gweithredu cam pellach tuag at safonau cyn y pandemig yn 2023 yn hytrach nag unioni cadarn yn ôl iddynt. Wrth wneud y penderfyniad hwn fe wnaeth y Bwrdd ystyried:

- Effaith barhaus yr amharu ar addysg oherwydd y pandemig a'r tebygrwydd y gallai rhywfaint o darfu oherwydd salwch a ffactorau cymdeithasol eraill barhau i'r flwyddyn academaidd hon
- Y ffaith y byddai unioni llawn i safonau cyn y pandemig yn 2023 yn cyflwyno sefyllfa ddyrys
- Roedd natur unedol llawer o gymwysterau yng Nghymru (yn enwedig y berthynas rhwng model UG a Safon Uwch 'cypledig') yn golygu na fyddai'n bosibl unioni'n llawn i safonau cyn y pandemig oherwydd y dull a ddefnyddiwyd yn 2022.

Bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried y safbwynt yr oedd Ofqual yn debygol o'i gymryd, sydd bellach wedi'i gadarnhau, y bydd cymwysterau tebyg o dan y polisi 'gwneud-i-Loegr' yn cael eu dyfarnu ar safon cyn y pandemig yn 2023, gan ddefnyddio canlyniadau yn 2019 fel y meincnod.

Mae hyn yn golygu y bydd y dulliau graddio ychydig yn wahanol ar draws awdurdodaethau yn 2023, tra bod Cymru'n cymryd mwy o amser i unioni'n ôl i safonau cyn-bandemig. Wrth wneud ei benderfyniad, myfyriodd y Bwrdd ar adborth cefnogol a ddarparwyd gan nifer o randdeiliaid yng Nghymru. Bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu ymagwedd wahanol i Ofqual ond roedd o'r farn bod modd rheoli'r risgiau hyn ac nad oeddent yn gorbwyso'r ystyriaethau a amlinellwyd yn y pwyntiau bwled uchod. Y bwriad ar hyn o bryd yw y bydd unioni i safonau cyn y pandemig yng Nghymru yn 2024[1].

[1] Bydd rhywfaint o effaith o benderfyniadau graddio mewn lefelau UG a rhai unedau TGAU a wnaed yn 2023 ar ganlyniadau yn 2024. Fodd bynnag, bydd yr effaith yn fach.

Gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad mewn perthynas â graddio ym mis Tachwedd 2022 a haf 2023 ar 29 Medi – yr un diwrnod ag y cyhoeddodd Ofqual ei benderfyniad. Mae cynrychiolwyr rydyn ni wedi ymgysylltu â nhw o AU wedi croesawu'r eglurder cynnar rydyn ni wedi'i ddarparu.

Gobeithiaf fod y wybodaeth hon wedi mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd yn eich llythyr, ond mae croeso i chi gysylltu â mi os gallaf fod o unrhyw gymorth pellach.

Yn gywir



Philip Blaker
Prif Weithredwr